

Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol



Gwybodaeth i
Rieni/Cynhalwyr



RHONDDA CYNON TAF

1. CYFLWYNIAD

Beth yw Hyfforddiant Teithio?

Nod Hyfforddiant Teithio yw helpu'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol wrth deithio ar eu pennau eu hunain.

Fel arfer, bydd Hyfforddiant Teithio yn cael ei ddarparu ar sail anghenion a gallu'r sawl sy'n cael ei hyfforddi, a hynny drwy waith wyneb i wyneb neu'n rhan o grŵp.

Mae modd i Hyfforddiant Teithio ddarparu ystod eang o gymorth drwy:

- Darparu hyfforddiant tymor byr er mwyn i unigolion ddod yn gyfarwydd â sut y mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio yn eu hardal leol, gan roi'r hyder iddyn nhw ei defnyddio, neu:
- Darparu hyfforddiant wyneb i wyneb rheolaidd, dwys, mwy hirdymor fel bod modd dysgu sgiliau diogelwch ar y ffyrdd ac ymwybyddiaeth bersonol pwysig.

Pwy y mae'n ceisio ei helpu?

Mae modd i Hyfforddiant Teithio helpu unigolion o bob oedran, gallu ac anghenion sydd â diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o sut y mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rheiny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn elwa'n fawr o dderbyn Hyfforddiant Teithio.

Fel arfer, mae'r unigolion yma yn teithio mewn tacsis sydd wedi eu trefnu iddyn nhw gan y Cyngor hyd nes eu bod yn gadael yr ysgol. Gan fod dim profiad gyda nhw o baratoi a threfnu teithiau fel hyn eu hunain, mae dod o hyd i addysg bellach, lleoliadau gwaith, hyfforddiant a phrofiadau bywyd eraill yn eithaf brawychus weithiau. Bydd nifer ohonyn nhw yn anghyfarwydd â dod o hyd i'r wybodaeth, y cyngor neu hyd yn oed y sgiliau angenrheidiol er mwyn teithio'n annibynnol.

Mae Hyfforddiant Teithio hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd mynd o le i le oherwydd salwch neu anabledd diweddar.

Noder: Bydd unigolion sy'n ddall neu'n rhannol ddall angen sgiliau llywio a synnwyr cyfeiriad arbenigol arnyn nhw. Dydy'r rhain ddim yn rhan o'r Hyfforddiant Teithio. Fodd bynnag, mae yna Swyddogion arbenigol ym maes symudedd a fydd yn rhoi cymorth i'r unigolion yma.

Gan fod cludiant tacsï ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed dim ond yn cael ei ddarparu mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n anhebygol y bydd y Panel Mynediad at Gludiant yn cytuno i ddarparu cludiant o'r fath heb ymgysylltu â'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid neu'r Garfan Pontio. Caiff Hyfforddiant Teithio ei ddarparu dros gyfnod o o leiaf 6 wythnos ac mae'r hyfforddiant wedi cael ei asesu am risg. Mae modd i chi drafod unrhyw bryderon sydd gyda chi gyda'r Gweithiwr Allweddol felly does dim rheswm y bydd hyfforddiant teithio'n cael ei wrthod ar sail diogelwch. Pwrpas yr hyfforddiant teithio yw gwella hyder a gwydnwch er mwyn i unigolion fod yn fwy annibynnol.



2. NODAU, AMCANION A MANTEISION

Pan fydd yr unigolyn sy'n cael ei hyfforddi'n gwbl annibynnol ac y mae modd iddo deithio ar ei ben ei hun, fydd trafndiaeth/tacsis ddim yn cael eu trefnu iddyn nhw bellach, a bydd yr unigolyn yn derbyn tocyn *bws/trên. Mae modd defnyddio'r tocynnau yma i deithio i'r ysgol, y coleg, sesiynau hyfforddi, canolfannau dydd a lleoliadau gwaith ac yn ôl. Wrth wneud hyn, bydd yr unigolyn yn defnyddio'r sgiliau a'r cyfleoedd newydd i ddod yn fwy annibynnol.

*Noder: bydd tocynnau bws yn cael eu cyhoeddi yn unol â pholisi trafndiaeth y Cyngor yn unig wrth ystyried a yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf i dderbyn trafndiaeth am ddim. Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion yn gymwys i dderbyn tocyn bws i berson anabl neu i gydymaith er mwyn teithio'n rhad ac am ddim ar yr holl wasanaethau bysiau yng Nghymru. I gael rhagor o fanylion, ffoniwch yr **Uned Trafndiaeth Gyhoeddus ar (01443) 425001**.

Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol Amcanion

- Ymgysylltu ag ysgolion er mwyn hyrwyddo diwylliant o fyw'n annibynnol sy'n gynaliadwy yn Rhondda Cynon Taf, a hynny drwy gysylltu'r hyfforddiant mewn ffordd berthnasol â'r cwricwlwm.
- Ysgogi pobl ifainc i eisiau teithio'n annibynnol ac annog datblygu sgiliau bywyd yn yr hirdymor.
- Hyfforddi a chynorthwyo unigolion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym maes teithio'n annibynnol, sy'n sgil hanfodol wrth fyw'n annibynnol.
- Darparu amgylchedd dysgu diogel ble y mae modd i unigolion ddod yn fwy annibynnol a dod yn fwy hyddysg.
- Annog defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.



Buddion i unigolion

- Dod yn fwy annibynnol, yn fwy cydnerth a datblygu mwy o hunan-hyder.
- Bod yn fwy effro i'w dioglewch personol.
- Cael eu cynnwys yn rhan o'r gymdeithas mewn ffordd decach, gan roi rhagor o ddewis iddyn nhw.
- Y gallu i fwynhau teithio ar eu pennau eu hunain neu gyda'u ffrindiau yn Rhondda Cynon Taf.
- Iechyd a Lles – mae defnyddio'r bws a cherdded yn hyrwyddo ymarfer corff a byw'n iach.
- Safon bywyd gwell a datblygu'n bersonol a chymdeithasol er mwyn bod yn rhan o'r gymdeithas ehangach.
- Mynediad at addysg bellach, gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd bywyd eraill, waeth beth yw eu gallu.
- Proses bontio ddi-drafferth wrth ddod yn oedolyn.
- Ennill sgiliau hanfodol y mae modd eu defnyddio mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd – trin arian, deall yr amser, rhyngweithio ag eraill, ymdrin â sefyllfaoedd newydd a'r annisgwyl, cynllunio teithiau a pharatoi amdany'n nhw.



Buddion i Rieni/Cynhalwyr

- Bydd yr unigolyn yn cael ei hyfforddi gan Weithiwr Allweddol neu weithiwr sy'n gyfarwydd i'r unigolyn ac sy'n rhywun y mae'n ymddiried ynndo/ynndi.
- Bydd Hyfforddiant Teithio yn cael ei ddarparu ar sail anghenion, hyder a lefel sgil y sawl sy'n cael ei hyfforddi, a hynny drwy waith wyneb i wyneb neu'n rhan o grŵp.
- Bydd Hyfforddiant Teithio yn cael ei gynnig am isafswm o 6 wythnos, ond mae'n ddibynnol ar sut mae'r unigolyn yn datblygu. Mae hyn yn golygu bod modd i'r unigolyn fwynhau'r hyfforddiant heb iddo deimlo dan bwysau.
- Bydd yr unigolyn yn cael ei hyfforddi i safon uchel, gan ddeall sgiliau a thasgau allweddol a fydd yn golygu bod modd iddo gerdded a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ddiogel.
- Bydd modd i'r unigolyn sy'n cael ei hyfforddi fwynhau ei fywyd yn oedolyn i'r eithaf a hynny drwy fod yn annibynnol.

Bydd rhieni/cynhalwyr yn rhan o'r broses hyfforddi o'r dechrau. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cynghori â chi ar bob cam y broses, fel eich bod chi'n deall yr hyn sy'n rhan o'r hyfforddiant a sut mae'n mynd rhagddo.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu bryderon yn ystod y broses, mae croeso i chi gysylltu â'ch Gweithiwr Allweddol neu'r person sy'n arwain yr hyfforddiant yn yr ysgol/y coleg/y sefydliad. Mae'r manylion cyswllt ar dudalen olaf y canllaw yma.

3. SUT BETH YW HYFFORDDIANT TEITHIO YMARFEROL?

Yr ystafell ddosbarth

Amcanion: Cyn dechrau ar yr hyfforddiant ymarferol, bydd hyfforddwyr yn pennu amcanion gyda phob unigolyn. Bydd y rhain yn cynnwys meysydd a fydd o bosib yn peri pryder i'r unigolion ar y dechrau, fel deall yr amser, magu hyder, bod yn gydnherth a gwella sgiliau cyfathrebu.

Sut y mae ymddwyn wrth deithio: Bydd gofyn i bob unigolyn sy'n derbyn hyfforddiant nodi'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol iddyn nhw mewn perthynas â sut y mae ymddwyn wrth deithio ar y bws, cerdded o le i le, cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a rhyngweithio â nhw.

Cynllun Teithio: Bydd y Gweithiwr Allweddol a'r unigolyn yn paratoi cynllun teithio manwl ar y cyd sy'n nodi llwybr teithio cyflawn yr unigolyn. Bydd pob unigolyn a'i Weithiwr Allweddol yn trafod sut y mae paratoi am daith, gan gymryd i ystyriaeth y math o lwybr i'w gymryd a'r math o drafnidiaeth i'w defnyddio, yn ogystal â'r math o ddillad ac esgidiau y dylid eu gwisgo ar wahanol adegau'r dydd ac o dan wahanol amodau'r tywydd. Bydd y Gweithiwr Allweddol a'r unigolyn hefyd yn cynllunio'r daith ar y cyd, gan edrych ar sut y mae dod o hyd i wybodaeth am y daith, penderfynu ar fath o drafnidiaeth, rheoli'r amser, darllen amserlenni bysiau a mapiau, mynd i'r afael â'r annisgwyl a sgiliau cyfathrebu.

Hyfforddiant Ymarferol – Cyfarwyddyd cam wrth gam

Bydd yr hyfforddiant ymarferol yn dilyn y tri cham isod. Bydd manylder yr hyfforddiant a faint o amser sy'n cael ei dreulio arno yn cael ei bennu i gyd-fynd â'r unigolyn, a hynny yn unol â chytundeb rhwng yr hyfforddwr a'r rhieni/cynhalwyr.

1. Teithio gyda'r Unigolyn: Cam cynta'r broses hyfforddi yw cael y Gweithiwr Allweddol i deithio gyda'r unigolyn neu'r grŵp i le mae e/mae hi/maen nhw am fynd, ac yn ôl i'r man cychwyn. Bydd hyn o gyfeiriad cartref yr unigolyn neu'r grŵp neu fan cyfarfod cytûn, lle mae cyfrifoldeb y rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol yn trosglwyddo i'r Gweithiwr Allweddol. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn teithio gyda'r unigolyn/grŵp i le mae e/mae hi/maen nhw am fynd, ac yna yn ôl. Pan fydd pawb yn ôl yn y cyfeiriad cartref neu'r man cyfarfod cytûn, mae'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol tan y daith nesaf gyda'r Gweithiwr Allweddol.

2. Cysgodi: Yr ail gam yw i'r Gweithiwr Allweddol gysgodi taith yr unigolyn o bellter diogel, a hynny er mwyn asesu lefel ei sgiliau a'i allu mewn perthynas â chroesi'r ffordd yn ddiogel, diogelwch y ffyrdd yn gyffredinol, mynd ar y bws ac oddi arno a chyfathrebu â gyrwr y bws.

Yn ystod y cam Cysgodi, bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'r unigolyn yn ei gartref neu mewn man cytûn a sicrhau ei fod yn hyderus a'i fod wedi paratoi ar gyfer y daith. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cysgodi'r unigolyn yn ystod y daith hyd nes iddo gyrraedd pen y daith, pan fydd cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r oedolyn cyfrifol. Ar gyfer y daith yn ôl, bydd yr unigolyn a'r Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'i gilydd er mwyn trafod y llwybr. Eto, bydd y Gweithiwr Allweddol yn cysgodi'r unigolyn yn ystod y daith a bydd yn trosglwyddo cyfrifoldeb i'r rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol yn y cyfeiriad cartref neu'r man cyfarfod cytûn.

3. Cyfarfod a Chyfarch: Y trydydd cam fydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'r unigolyn yn ei gartref neu fan cyfarfod cytûn a sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth deithio ar y llwybr. Bydd yr unigolyn wedyn yn mynd i ben y daith ar ei ben ei hun. Bydd rhywun yn cwrdd â'r unigolyn ar ben y daith cyn iddo fynd i mewn i'r lleoliad neu'r sefydliad. Bydd y Gweithiwr Allweddol yn rhoi gwybod i'r rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol bod yr unigolyn wedi cyrraedd yn ddiogel.

Fydd unigolyn ddim yn cael teithio ar ei ben ei hun hyd nes bod y Gweithiwr Allweddol o'r farn bod modd i'r unigolyn deithio heb iddo fod yn hwyr i ben y daith neu heb fynd ar goll. Bydd unigolion yn cael eu cysgodi ar y llwybr yma sawl gwaith cyn teithio ar y llwybr yn annibynnol.



4. CYRRAEDD YN DDIOGEL

Mae'n bwysig iawn bod unigolion yn teimlo'n ddiogel wrth gael eu hyfforddi, fel bod modd iddyn nhw deimlo'n gyfforddus am fod y tu allan yn y gymuned, defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a symud tuag at deithio'n annibynnol yn raddol.

Nod y tri cham hyfforddi ymarferol uchod yw gwella lefel sgiliau a hunanhyder unigolion yn raddol wrth eu hyfforddi i deithio i ben eu taith ac yn ôl yn annibynnol.

Caiff cynnydd pob unigolyn ei fonitro'n rheolaidd. Pan fydd y Gweithiwr Allweddol o'r farn bod yr unigolyn yn barod i symud at gam nesaf yr hyfforddiant, bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r unigolyn a'r rhiant/cynhaliwr cyn symud ymlaen. Wrth gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhieni/cynhalwyr, bydd pawb yn effro i'r hyn sy'n digwydd yn rheolaidd, gan leihau dryswch a phryder diangen.

Asesiadau Risg

Mae asesiad risg cyffredinol wedi'i baratoi er mwyn gwerthuso unrhyw risgiau posibl i'r Gweithwyr Allweddol, unigolion, aelodau'r cyhoedd a/neu weithredwyr bysiau yn ystod y broses hyfforddi. Mae mesurau rheoli ymarferol wedi'u rhoi ar waith er mwyn rheoli a lleihau'r sgôr risg.

Pan fydd llwybr i ben y daith ac yn ôl wedi'i nodi ar gyfer pob unigolyn, mae'n hanfodol bod y Gweithiwr Allweddol, a lle bo'n berthnasol, aelodau Carfan Diogelwch y Ffyrdd yn cynnal asesiad risg unigol cyn dechrau ar y broses hyfforddi. Fel arfer, bydd y llwybr mwyaf uniongyrchol yn cael ei nodi, ond mae'n bwysig sicrhau mai dyma'r llwybr mwyaf diogel. Mae templed asesiad risg cymeradwy y Cyngor yn cael ei ddefnyddio at y diben yma.

Sicrhau Diogelwch

Er mwyn hwyluso'r daith, mae modd rhoi deunyddiau penodol i'r Gweithiwr Allweddol a'r unigolion, fel:

- Tocyn bws;
- Cerdyn gofal ychwanegol (waled oren) – wedi'i baratoi'n arbennig ar gyfer pob unigolyn. Mae'n nodi manylion cyswllt y Gweithiwr Allweddol, yr ysgol, y coleg, canolfan ddydd, lleoliad gwaith a'r cyfeiriad cartref. Bydd manylion sut mae dod o hyd i wybodaeth deithio hefyd yn cael eu harddangos, h.y. Traveline Cymru a bysys lleol (Stagecoach, Edwards, NAT) neu weithredwr y trenau.
- Cynllun teithio – sy'n nodi amseroedd, gwybodaeth am fysiau a map gyda llefydd cyfarwydd arno;
- Bandiau braich sy'n adlewyrchu, yn ôl yr angen;
- Larwm diogelwch personol, yn ôl yr angen

Hwyrdeb, Salwch ac Argyfyngau

Os bydd y Gweithiwr Allweddol neu'r unigolyn yn hwyr, yn sâl neu os bydd argyfwng, mae nifer o weithdrefnau mewn argyfwng wedi eu rhoi ar waith. Bydd modd i bawb ddilyn y gweithdrefnau yma a byddan nhw'n helpu i osgoi dryswch a phryder diangen. Bydd gwybodaeth benodol, e.e. amseroedd dechrau a gorffen yr hyfforddiant, yn dibynnu ar yr unigolyn a'r llwybr. Bydd pawb yn cytuno ar hyn ac yn llofnodi'r cytundeb.

Cyn bod modd dechrau ar hyfforddiant, bydd gofyn i rieni/cynhalwyr gwblhau ffurflen manylion cyswllt mewn argyfwng neu ffurflen gyfatebol. Dylid enwi hyd at dri unigolyn gwahanol, lle bo hynny'n ymarferol. Nodwch mai chi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol am unrhyw newidiadau.

Hefyd, dylid nodi unrhyw gyflyrau/gwybodaeth feddygol ar y ffurflen. Unwaith eto, dyma ofyn i rieni/cynhalwyr roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Bydd y Gweithiwr Allweddol wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol a bydd modd iddo fynd i'r afael ag unrhyw fân achosion o gwmpo, ac ati. Fodd bynnag, os yw'r achosion yn fwy difrifol neu yn achos argyfwng meddygol, bydd hawl gyda'r Gweithiwr Allweddol gysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaethau brys.


Cyfrifoldeb am bob unigolyn ar y daith

Ar gyfer y daith i'r sefydliad/lleoliad ac yn ôl, bydd y Gweithiwr Allweddol yn gyfrifol am unigolion sy'n cael caniatâd i ddechrau ar hyfforddiant teithio. Fel bod pawb yn deall cyfrifoldebau'r rhiant/cynhaliwr o'u cymharu â rhai'r Gweithiwr Allweddol, bydd yr hyfforddiant wyneb i wyneb bob amser yn cael ei gynnal o gyfeiriad cartref yr unigolyn neu'r man cyfarfod cytûn i'w sefydliad/lleoliad ac yn ôl. Os fydd rhiant/cynhaliwr ddim yn bresennol, mae gweithdrefn trosglwyddo cyfrifoldeb wedi ei rhoi ar waith.

Achosion

Os bydd damwain (baglu, llithro, neu fân anaf ac ati) rhaid i'r Gweithwyr Allweddol gwblhau ffurflen achos ac atal. Bydd hyn yn nodi manylion yr achos ac yn awgrymu sut i'w osgoi yn y dyfodol. Bydd prosesau a gweithdrefnau hyfforddi ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u newid yn unol â'r achos.

Bydd rhieni/cynhalwyr yn cael gwybod am unrhyw achosion a bydd trafodaeth i ddod i gytundeb i barhau â'r hyfforddiant teithio.





5. RÔL RHINI A CHYNHALWYR

Fel y mae wedi'i nodi eisoes, fydd hyfforddiant teithio ddim yn llwyddo oni bai bod rhieni/cynhalwyr yn chwarae rôl lawn ynddo. Bydd y Gweithwyr Allweddol yn gweithio'n hynod o galed i sicrhau bod rhieni/cynhalwyr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses hyfforddi. Bydd hyn yn helpu rhieni/cynhalwyr i ddeall yr hyn y mae'r hyfforddiant yn ceisio ei gyflawni, a'r buddion i fywyd yr unigolion yn y pen draw. Bydd gofyn i chi gytuno ar bob penderfyniad a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn ystyried eich barn a'ch awgrymiadau. Lle nad oes unrhyw ymgysylltiad gan rieni a chynhalwyr i gyflawni hyfforddiant teithio, mae'n bosibl y bydd cludiant i'r ysgol/coleg yn cael ei dynnu'n ôl, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i rieni/cynhalwyr.

6. GWASANAETH MONITRO AC ÔL-OFAL

Bydd gwasanaeth monitro ac ôl-ofal (ar gyfer unigolion a'u teuluoedd) yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r rhaglen hyfforddi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod teithwyr annibynnol yn parhau i deithio mewn modd hyderus a diogel pan fydd eu hyfforddiant wedi dod i ben.

Bydd y broses fonitro yn cynnwys ymgynghori ag unigolion a'u teuluoedd o bryd i'w gilydd i wirio cynnydd ac i nodi a oes angen darparu hyfforddiant pellach. Bydd hefyd yn golygu gwirio'n achlysurol bod unigolion yn teithio'n ddiogel ar eu llwybrau rheolaidd i'r ysgol/coleg neu sefydliad.

Os oes pryderon go iawn ar unrhyw adeg (o du'r unigolion, y rhieni/cynhalwyr neu'r lleoliad) ynglŷn ag unigolyn sy'n teithio'n annibynnol, mae modd trefnu trafndiaeth amgen yn y tymor byr nes bod y problemau'n cael eu goresgyn, yn unol â pholisi/meini prawf y Garfan Drafnidiaeth.

Bydd y gwasanaeth monitro ac ôl-ofal yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r ysgolion, y gwasanaeth dydd, y rhieni/cynhalwyr a'r unigolion. Mae'n hanfodol bod unrhyw wasanaethau cymorth sy'n cael eu rhoi ar waith yn adlewyrchu syniadau ac anghenion trigolion a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.


7. CWESTIYNAU CYFFREDIN

C. Beth fydd cost yr Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol?

Mae'r Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol ar gael yn rhad ac am ddim i bob unigolyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

C. Pwy sy'n cael Hyfforddiant Teithio?

Bydd pob ysgol neu ganolfan ddydd sy'n cymryd rhan yn gwneud atgyfeiriadau priodol. Bydd nodi'r unigolion yma a'r cynigion i gymryd rhan yn seiliedig ar feini prawf priodol. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys oedran, anghenion meddygol ac amgylchiadau personol yr unigolyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant ddim yn cael ei gynnis i'r rheiny y mae'n annhebygol y byddan nhw'n byw'n gwbl annibynnol, a hynny er mwyn peidio â chodi gobeithion di-sail.





C. Beth fydd yn digwydd os bydd fy mab/merch yn ceisio teithio'n annibynnol ond yn methu ag ymdopi â'r broses?

Peidiwch â phoeni. Os yw'ch mab/merch yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim oherwydd eu Hanghenion Dysgu Ychwanegol (neu yn unol â pholisi/meini prawf y Cyngor) bydd modd aildrefnu eu trafndiaeth wedi'i hariannu gan y Cyngor hyd nes eu bod yn hyderus i roi cynnig arall ar y broses.

C. A fydda i yn colli unrhyw fudd-daliadau cysylltiedig os bydd fy mab/merch yn dod yn annibynnol?

Mae Hyfforddiant Teithio yn tueddu i ganolbwyntio ar helpu unigolion i wneud un daith benodol. Mae'n bosibl y bydd elfennau eraill o fyw'n annibynnol yn golygu bod angen cymorth ar unigolion, neu y bydd modd hawlio budd-daliadau. I gael cyngor arbenigol, cysylltwch â Chanolfannau IBobUn y Cyngor.

C. A fydda i yn colli unrhyw fudd-daliadau cysylltiedig os bydd fy Beth os rydyn ni'n gwrthod bod ein mab/merch yn cyflawni hyfforddiant teithio?

Lle nad oes ymgysylltiad i gyflawni hyfforddiant teithio, mae'n bosibl y bydd y cludiant i'r ysgol/coleg yn cael ei dynnu'n ôl, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i chi.

C. Pwy sy'n gyfrifol am fy mab/merch os yw'r Gweithiwr Allweddol yn sâl?

Os bydd y Gweithiwr Allweddol yn sâl, mae'n bosibl y bydd Gweithiwr Allweddol arall yn cymryd cyfrifoldeb dros yr hyfforddiant y diwrnod yna, neu y bydd trafndiaeth amgen yn cael ei threfnu i gludo'r unigolyn i ben ei daith ac yn ôl. Dylech chi gyfeirio at y ffurflenni gweithdrefnau mewn argyfwng neu ffurflenni cyfatebol.

C. A fydd disgwyl i'm mab/merch fod ar ei ben/ei phen ei hun wrth fynd i'r safle bws?

Bydd y Gweithiwr Allweddol yn codi eich mab/merch o'u cyfeiriad cartref neu fan cyfarfod cytûn, gan fod yr hyfforddiant yn cynnwys teithio'r daith gyfan (i'r ysgol/y coleg/hyfforddiant/canolfan ddydd/lleoliad gwaith). Bydd y Gweithiwr Allweddol yn asesu sut mae'r unigolyn yn ymdopi. Bydd raid iddo fod yn hyderus bod modd i'r unigolyn gyrraedd pen ei daith yn annibynnol, a dod yn ôl ohono.


Yn ystod Camau 1 a 2 (Teithio gyda'r Unigolyn a Chysgodi), bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â phob unigolyn yn ei gyfeiriad cartref neu fan cyfarfod cytûn. Fydd unigolion ddim yn cael eu gadael i deithio ar eu pennau eu hunain hyd nes eu bod wedi teithio'r llwybr sawl gwaith, mae'r Gweithiwr Allweddol wedi asesu eu gallu ac mae'r risg yma'n isel.

C. Beth sy'n digwydd os yw fy mab/merch yn Camymwyddyn?

Bydd y Gweithiwr Allweddol yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch mab/merch mewn perthynas â sut y mae ymddwyn wrth gerdded a defnyddio'r bysiau. Bydd disgwyl i'r cyfarwyddiadau yma cael eu dilyn. Os bydd unigolyn yn camymddwyn, bydd e/hi yn derbyn rhybudd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd pob unigolyn wedi'i ysgogi i ddechrau'r hyfforddiant a'r gobaith yw y bydd dim problemau o ran ymddygiad.

C. Beth os yw fy mab/merch yn mynd yn sâl a bod dim modd iddo/iddi fynd i'r lleoliad? I bwy ydw i'n rhoi gwybod ac erbyn pryd?

Bydd Gweithiwr Allweddol eich mab/merch yn creu cynllun teithio ar gyfer y daith cyn i'r hyfforddiant ddechrau. Bydd hyn yn nodi faint o'r gloch y bydd angen i'r unigolyn adael. Os yw'ch mab/merch yn sâl, dyma ofyn i chi roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol awr cyn i'r hyfforddiant ddechrau.



C. A yw'r hyfforddiant yma ar gyfer y rheiny y byddai modd iddyn nhw deithio ar fws yn unig, neu a oes cynllun cerdded hefyd ar gyfer unigolion sy'n byw'n ddigon agos i gerdded i'w hysgol, eu coleg neu'u sefydliad?

Nod yr hyfforddiant yw helpu unrhyw unigolyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n derbyn trafndiaeth yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd, i deithio'n annibynnol. Pan fydd unigolyn yn gadael yr ysgol, mae modd i'r gwasanaeth ôl-ofal ddarparu nifer o oriau o hyfforddiant (sgiliau cerdded/mynd ar y bws) i helpu unigolion sy'n teithio i gyfleuster/gweithle/hyfforddiant/coleg newydd, ac ati, i gynnal eu hannibyniaeth.

C. Os yw fy mab/merch yn rhoi cynnig ar yr hyfforddiant yma a dyw e ddim at ei ddant/dant, a fydd trafndiaeth ar gael iddyn nhw?

Yn ystod yr hyfforddiant, os bydd y Gweithiwr Allweddol, yr ysgol, y ganolfan ddydd a'r rhiant yn cytuno fydd yr unigolyn ddim yn dod yn gwbl annibynnol neu eu bod nhw ddim yn hapus â'r cynnydd y mae'r unigolyn yn ei wneud, bydd modd ail-drefnu trafndiaeth yr unigolyn.

Os yw'r unigolyn yn cwblhau ei hyfforddiant ac yn dod yn gwbl annibynnol, ond bod gydag ef/hi reswm dilys i roi'r gorau i deithio'n annibynnol, bydd modd ailystyried defnyddio trafndiaeth wedi'i threfnu gan y Cyngor, ar yr amod bod yr unigolyn yn dal yn gymwys i dderbyn trafndiaeth am ddim.

C. A fydd gwiriadau cefndir ar y Gweithwyr Allweddol sy'n gweithio gyda fy mab/merch?

Bydd staff y Cyngor sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion wedi bod yn destun Gwriad estynedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

8. MANYLION CYSWLLT Y PROSIECT

- Andrea Hughes, Gwasanaethau Uniongyrchol, Carfan Bontio
Rhif ffôn y Swyddfa: 01443 841235 • Rhif ffôn symudol: 07919823648
- Nicola Murphy, Arweinydd Carfan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid
Rhif ffôn y Swyddfa: 01443 281436 • Rhif ffôn symudol: 07799132121
- Gweithiwr Allweddol: _____
Rhif ffôn y Swyddfa: 01443 _____ Rhif ffôn symudol: _____

Os dydy'r person uchod ddim ar gael, ffoniwch:

Uned Trafndiaeth Integredig • Rhif ffôn y Swyddfa: 01443 494824

**Uned Trafndiaeth Integredig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol
E-bost: communitycaretransport@rctcbc.gov.uk • Ffôn: 01443 425001**